



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parc Rhanbarthol Y Cymoedd

Manteisio i'r eithaf ar
botensial cymdeithasol,
economaidd ac
amgylcheddol
asedau treftadaeth naturiol
a diwylliannol y Cymoedd

Ein Cymoedd
Ein Dyfodol



Our Valleys
Our Future

Rhagair	5
Tirweddau'r Cymoedd: Stori Ryfeddol am Newid	7
Creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd Gyda'n Gilydd	9
Themâu Parc Rhanbarthol y Cymoedd	11
1. Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth	13
2. Hamdden a Llesiant	17
3. Cymunedau a Mentergarwch	21
Cyd-Fynd â Pholisïau a Rhaglenni Presennol a Rhai Sydd Ar Droed	25
Cysylltwch â ni	27



Mae'r Cymoedd yn fan lle mae pobl yn falch i fyw a gweithio a lle mae busnesau'n dewis gweithredu. Mae'n fan lle mae cymunedau'n cael eu grymuso; lle mae'r amgylchedd lleol yn hygyrch, yn hwylus, yn cael ei ddefnyddio'n eang ac wrth galon bywyd y Cymoedd.¹

¹Cynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd



Cefais fy ngeni a'm magu yn y Cymoedd. Wrth gael fy magu yno fe ges i gyfle i ddarganfod y cymysgedd gwych o dreftadaeth a harddwch ar garreg y drws, fel plentyn ac wrth dyfu'n oedolyn.

Mae gennym rai o'r tirweddau naturiol mwyaf unigryw a thrawiadol yng Nghymru a'r DU. Ond yn rhy aml o lawer, mae harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Cymoedd a'u gallu i ddenu ymwelwyr wedi'u diystyru a'u dibrisio. Ers gormod o amser, mae pobl wedi edrych ar y Cymoedd trwy brism llwch glo'r pyllau a'r diweithdra a ddilynodd ar ôl iddynt gau.

Nid un gymuned yw'r Cymoedd – mae'r ardal yn cynnwys llawer o gymunedau a llawer o bobl wahanol ac amrywiol. Roedd y gwahaniaethau hyn yn amlwg yn ystod y cyfarfodydd a'r sgysiau niferus ges i, ac aelodau'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, â chymunedau ledled y Cymoedd dros y ddwy flynedd diwethaf wrth inni ddatblygu a dechrau cyflwyno cynllun *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* gyda'n gilydd.

Rydym wedi clywed amrywiaeth eang o safbwyntiau gan bobl a chymunedau ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw am ble maen nhw'n byw – gan gynnwys teimladau cryf o falchder cymunedol a'r cyfeiriadau negyddol sydd wedi'u cysylltu'n annheg â'r Cymoedd ar adegau.

Un thema glir a ddaeth i'r amlwg yw'r angen i fanteisio mwy ar dirweddau unigryw'r Cymoedd er mwyn sicrhau bod modd eu mwynhau'n ehangach. Hefyd, mynegwyd teimlad cryf y dylai treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd fod yn gefnlen i ddyfodol newydd i'r ardal.

Mae tirweddau'r Cymoedd yn cynnig cyfleoedd di-ri i alluogi cymunedau, sefydliadau a busnesau i weithio mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol er mwyn helpu i sicrhau ffyniant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.


Nid prosiect neu fenter untro yw Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn seiliedig ar fwriad i sicrhau bod y Cymoedd ar flaen y gad yn fyd-eang, gyda phroffil cenedlaethol a rhyngwladol, trwy greu math newydd o dirwedd â dynodiad ffurfiol. Bydd hyn yn gwasanaethu cenedlaethau'r dyfodol trwy greu dyfodol cynaliadwy a chryf.

Mae'r prospectws hwn yn wahoddiad i bawb ymuno â ni er mwyn creu dyfodol o'r fath.



Alun Davies AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus



‘I had now entered into the wild and mountainous region, where nature seemed to reign in stern and unbroken silence. Not a human being besides myself appeared to be treading these solitudes, nor was there habitation to be seen.’²

² Wanderings in south Wales (1837) - Thomas Roscoe

Tirweddau'r Cymoedd: Stori Ryfeddol am Newid

Ychydig iawn o leoedd yn Ynysoedd Prydain – neu'r tu hwnt – sydd wedi gweld y fath newidiadau dramatig i'r dirwedd fel y rhai a welwyd yn y Cymoedd dros y 250 mlynedd diwethaf.

Tan ddiwedd y 18fed ganrif, roedd y Cymoedd yn ardal amaethyddol wledig yn ei hanfod a heb ei darganfod tan i fwyndoddi copr a chynhyrchu haearn gychwyn, gyda chloddio dwfn am lo'n dilyn hynny. Dyna greodd y dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog ac unigryw a'r cymunedau cryf yr ydym yn haeddiannol falch ohonyn nhw.

Roedd yr effaith ar dirweddau'r Cymoedd fodd bynnag yn ddinistriol gyda 'coal-tips ... spread about the floors of the Valleys and on nearby hillsides ... (and) once fair Valleys, with woodlands, pure streams and pastoral scenery, widely despoiled.'³ Yn y *South Wales Outline Plan*, galwodd Lloyd a Jackson am i 'natural beauty should be allowed a more prominent place in (its) planning', yn unol â chynigion newydd ar gyfer creu Parc Cenedlaethol ym Mannau Brycheiniog, a sefydlwyd maes o law ym 1957, a Phenrhyn Gŵyr, a ddynodwyd fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU ym 1956.

Roedd map amwynderau'r cynllun yn dynodi'n syml mai 'Parth Diwydiannol yr Ucheldir' oedd y rhan fwyaf o'r Cymoedd. Fodd bynnag, fe wnaeth Lloyd a Jackson gydnabod bodolaeth yr ardaloedd hardd oedd heb eu difetha ar draws y Cymoedd a chynigiwyd creu pedwar parc rhanbarthol i wasanaethu'r canolfannau poblogaeth diwydiannol.

Ni dderbyniwyd y cynllun yn swyddogol, ond fe wnaeth elfennau sylweddol ddwyn ffrwyth. Fodd bynnag, nid felly'r Parc Rhanbarthol, a bu farw Alwyn Lloyd, un o benseiri a chynllunwyr trefol mwyaf blaenllaw Cymru, ym 1960 heb fod yn dyst i'r gweddnewid amgylcheddol

dramatig a rhyfeddol nesaf oedd ar fin digwydd yn y Cymoedd.

Yn yr un flwyddyn, dechreuodd dyn arall llawn 'egni a syniadau', Robin Huws Jones yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe, fynd i'r afael â diffeithdra'r tirweddau yn rhan isaf Cwm Tawe, a oedd wedi'u difrodi a'u halogi gan y diwydiant copr a mwyngloddio. Dangosodd Prosiect Cwm Tawe Isaf sut y gellid adfer tir o'r fath.

Ym 1966, y flwyddyn y cafodd ei gwblhau'n wreiddiol, digwyddodd trychineb enbyd Aberfan, a sbardunodd waith adfer tir mwy helaeth yn y Cymoedd. Y nod pennaf oedd ei adfer i'w ddefnyddio ar gyfer diwydiant ysgafn a thai. Ond crëwyd rhai ardaloedd hamdden newydd, megis Parc Gwledig Cwm Dâr. Cafodd ei agor ym 1973, y cyntaf erioed yn y DU i gael ei greu ar dir a adferwyd.

'Were it not for industrialisation, the Valleys would undoubtedly be one of the UK's most visited National Parks... Beneath a 're-mediated' landscape, it becomes harder to remember how the Valleys used to appear, and easier to imagine how it might have looked two hundred years before.'⁴

Cafwyd mwy o gydnabyddiaeth strategol o botensial economaidd-gymdeithasol ac, yn wir, o botensial amgylcheddol tirweddau'r Cymoedd, yn hytrach na gwelliannau esthetig yn unig, gyda menter *Gwyrddu'r Cymoedd/Greening the Valleys* ym 1997. Ynghyd â chysyniad *City of the Valleys*, fe wnaeth hyn atgyfodi'r syniad o greu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Rhwng 2009 a 2013, cafodd hyn ei dreialu drwy fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd a ariannwyd gan Ewrop a oedd yn canolbwyntio ar wella isadeiledd twristiaeth, cyfranogiad cymunedol a chysylltiadau busnes.

³ South Wales Outline Plan (1947) - Alwyn Lloyd and Herbert Jackson

⁴ The Landscape Opportunity in the Valleys (2008) - Adams and Brook

Ynghyd â datblygiadau eraill, megis rhaglen beicio mynydd Cognation, pwysleisiwyd rôl allweddol tirweddau'r Cymoedd ymhellach o safbwynt creu dyfodol cyffrous a chynaliadwy yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn 2017, saith deg o flynyddoedd ar ôl cynigion ysbrydoledig Lloyd a Jackson, cynigiodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC, uchelgais allweddol i sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'i ddynodi'n ffurfiol.

Bydd hyn yn helpu i newid syniadau pobl am y Cymoedd a'u rhoi ar flaen y gad o ran sut y gall ardaloedd ôl-ddiwydiannol weithio gyda'u hasedau treftadaeth naturiol a diwylliannol i sbarduno newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Tirwedd y cymoedd yn newid: Cwm Tyleri – 1972



Tirwedd y cymoedd yn newid: Cwm Tyleri – 2016



Creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd Gyda'n Gilydd



Cwm Llynfi – digwyddiad coetir (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Bydd **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** yn darparu ac yn cynnal y gwaith o wella a rheoli rhwydwaith gweladwy iawn o ucheldiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr a chamlesi, safleoedd treftadaeth ac atyniadau ar draws y Cymoedd, gan eu cysylltu â'n trefi a'n pentrefi.

Byddwn yn datblygu model unigryw ar gyfer y Parc Rhanbarthol sy'n cael ei lywio a'i ysbrydoli gan fodelau rydym wedi'u harchwilio yn y DU ac Ewrop, yn unol ag adolygiadau diweddar o dirweddau dynodedig yng Nghymru a'r cyfleoedd sy'n deillio o ddeddfwriaeth Gymreig newydd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Bydd hyn yn dwyn partneriaid ynghyd i roi sylw i'r dirwedd er mwyn galluogi a sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol yn lleol ac yn rhanbarthol, yn hytrach na gorfodi cyfyngiadau diangen, gan gynnwys:

- helpu i ddiogelu a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, cefnogi busnesau lleol a mewnfuddsoddi

- darparu man gwyrdd hygrych o ansawdd uchel i wella iechyd a lles
- datblygu gwytnwch cymunedol a chyfleoedd economaidd lleol yn seiliedig ar y dirwedd, gan wneud ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw ynddynt
- cefnogi addasu i newid yn yr hinsawdd trwy wneud y gorau o rôl seilwaith gwyrdd
- gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd
- newid syniadau pobl am y Cymoedd, yn fewnol ac yn allanol


Y bwriad yw sicrhau dynodiad ffurfiol ar gyfer y Parc Rhanbarthol gyda model y gellid ei fabwysiadu mewn ardaloedd eraill.



‘The Valleys (have a) valuable, sustainable asset... the landscape itself. There are few areas of landscape in the UK as dramatic and as beautiful as the Valleys...’⁵

⁵ The Landscape Opportunity in the Valleys (2008) – Adams and Brook

Themâu Parc Rhanbarthol y Cymoedd



Y Traphont a'r Argae ar y Taf Fawr, Cefn Coed Y Cymer

Ar sail profiad ymarferol blaenorol, ymchwil arfer gorau, ac ymgysylltu helaeth trwy Dasglu'r Cymoedd, mae gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd dair thema gyflawni gydgysylltiedig:

1. Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth

2. Hamdden a Llesiant

3. Cymunedau a Mentergarwch

Mae'r rhain yn gyson â'r egwyddorion sy'n sail i Barciau Natur, Rhanbarthol a Thirwedd Ewrop a syniadau diweddar am dirweddau dynodedig – Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol – yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd Adroddiad Marsden yn 2015 yn argymhell tri diben cydgysylltiedig ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru fel 'ffatrioedd llesiant' newydd, dynamig a chynhyrchiol, sef:

- gwarchod a gwella nodweddion tirlun unigryw ardal
- hyrwyddo llesiant drwy fwynhau a deall ei thirweddau
- hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a datblygiad economaidd a chymunedol sy'n cefnogi ei threftadaeth ddiwylliannol

Yr adroddiad hwn oedd y man cychwyn ar gyfer yr adroddiad dilynol, *Tirweddau'r Dyfodol Cymru: Cyflawni dros Gymru*, ac mae'r ddau adroddiad wedi llywio datganiad laenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar – Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth.⁶

⁶ www.gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/designatedlandscapespriorities/?skip=1&lang=cy

1. Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth



'Guardian', Six Bells, Abertyleri



O'r 'tirweddau anghofiedig' sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon, ar hyd gweundiroedd hudol y Mawr i'r gogledd o Abertawe, mae tirweddau unigryw a rhyfeddol y Cymoedd yn cynnig rhai o'r golygfeydd a'r dreftadaeth orau yng Nghymru a'r DU.

Ar ben hynny, un o nodweddion pwysig y Cymoedd yw bod yr amgylchedd naturiol yn amgylchynu ac yn ffinio â threfi a phentrefi, ac mae gan bob cwm ei dirweddau, ei dreftadaeth a'i straeon gwahanol i'w darganfod a'u mwynhau.

Mae'r rhai sy'n gyfarwydd â'r Cymoedd yn gwybod hyn yn barod. Yn wir, dangosodd arolwg yn 2013 fod pobl sy'n byw yn y Cymoedd yn falch iawn o'u tirweddau 'newydd'. Ond maent yn parhau i fod yn anghyfarwydd a dieithr i lawer; nid yn unig ymysg pobl o'r tu allan i'r ardal, ond hefyd rhai o bobl y Cymoedd eu hunain.

O ganlyniad, mae'r syniadau a geir am y Cymoedd yn hen ffasiwn yn aml, gan arwain yn annheg at gyfeiriadau ac effeithiau negyddol. Rydyn ni eisiau i hyn newid ac mae angen iddo newid.

Canlyniadau

- **Caiff y Cymoedd eu cydnabod ledled Prydain ac yn rhyngwladol am ansawdd a harddwch eu tirweddau a'u treftadaeth unigryw a nodedig**
- **Mae amgylchedd y Cymoedd yn iach, yn cefnogi ymatebion i newid yn yr hinsawdd, ansawdd a rheoli dŵr, bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd, gweithgarwch economaidd lleol, ac iechyd a lles pobl**
- **Mae tirweddau naturiol a diwylliannol y Cymoedd wrth wraidd hunaniaeth a diwylliant y Cymoedd**
- **Mae trefi'r Cymoedd yn fywiog ac mae ganddynt seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel**

Gwneud i hyn ddigwydd

Gweledigaeth gyfunol hirdymor a alluogir gan dirwedd ddynodedig

Byddwn yn ceisio cael dynodiad ffurfiol i'r Parc Rhanbarthol, i gydnabod yr amserlen angenrheidiol ar gyfer newid ystyrion, ac i sicrhau ei bod yn diwallu'r anghenion a'r heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Darganfod y Cymoedd

Byddwn yn adeiladu ar y gorau sydd gan y Cymoedd i'w gynnig eisoes. Mae yna barciau gwledig a chanolfannau rhagorol sy'n denu ymwelwyr a phobl leol. Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn datblygu a gwella detholiad o'r pyrrth strategol hyn fel 'Canolfannau Darganfod'.

Yn ogystal â bod yn gyrchfannau ynddynt eu hunain, rydym am iddynt adrodd straeon y cymoedd a gweithredu fel man cychwyn sy'n annog pobl leol ac ymwelwyr i archwilio a darganfod yr ardaloedd cyfagos, gan gynnwys ein trefi a'n pentrefi, a'r tirweddau ehangach.

Bydd Canolfannau Darganfod yn cynnig y safonau ansawdd uchaf, gan wella adnoddau naturiol yr ardal gyfagos, yn cynnig cynnyrch a nwyddau sy'n arddangos a chefnogi'r economi leol, ac yn darparu cyfleoedd addysg, dysgu a sgiliau trwy eu gweithgareddau, eu gwybodaeth a'u dehongliadau.

Rhwydwaith gweladwy iawn

Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys rhwydwaith o ansawdd uchel a gweladwy iawn o'n hucheldiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr a chamlesi, safleoedd treftadaeth ac atyniadau, sy'n gysylltiedig â'n trefi a'n pentrefi.

Byddwn yn gweithio gyda'r Metro wrth iddo gael ei wireddu i wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio yn y canolfannau trafniadaeth sy'n datblygu i gefnogi uchelgais gyffredin o gysylltu ein seilwaith gwyrdd a'n hatyniadau gyda system drafnidiaeth fodern.

Datblygu a chreu asedau tirwedd newydd

Mae'r tirweddau amgylcheddol a gwleidyddol sy'n newid yn cynnig heriau newydd a chyfleoedd cyffrous. Bydd Deddf newydd yr Amgylchedd gyda'i 'datganiadau ardal' gofynnol, a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ac, yn hollbwysig, yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd i sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol a'n ecosystemau yn gynaliadwy ac effeithiol. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyd-gynhyrchu a chyflwyno Cynlluniau Llesiant hirdymor i wneud y gorau o botensial ein hasedau amgylcheddol i wella ein llesiant.

Byddwn yn archwilio a chyflwyno cyfleoedd tirwedd sy'n dod i'r amlwg trwy'r Datganiadau Ardal a'r Cynlluniau Llesiant, gan gynnwys rhai i ddatblygu, gwella a chreu asedau amgylcheddol newydd ar hyd a lled y Cymoedd.

Gwarchod a hyrwyddo ein tirweddau

Mae tirluniau eiconig Cymru yn cael eu cydnabod ledled Prydain am ansawdd eu golygfeydd, eu treftadaeth naturiol ac adeiledig, a'u diwylliant. Mae gan dirweddau werth economaidd fel cyrchfannau i ymwelwyr, ond yn hollbwysig fel lleoedd pwysig i gymunedau iach ffynnu.

Byddwn yn cefnogi partneriaid trwy fentrau sy'n annog defnydd a mwynhad cyfrifol o dirweddau'r Cymoedd. Yn anffodus, fel mannau eraill, mae lleiafrif bach o bobl y mae eu gweithgareddau'n effeithio'n negyddol ar y tirweddau megis tipio anghyfreithlon a llosgi bwriadol. Mae hyn yn difetha mwynhad pobl o'n tirweddau ac yn cymell ymwelwyr i osgoi crwydro'r Cymoedd ac yn effeithio'n ofnadwy ar y modd y mae ein tirluniau'n gweithredu i gefnogi ein llesiant.

Tirwedd a threftadaeth

Mae tirweddau'r Cymoedd a'n treftadaeth a'n diwylliant balch yn rhan annatod o hunaniaeth y Cymoedd. Dyma'r Cymoedd a helpodd i lunio a newid y byd. Byddwn yn edrych ar y cyfleoedd i weithio gyda'n treftadaeth, megis y Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol ac atyniadau cysylltiedig ar draws y Cymoedd a thu hwnt.

At hynny, mae treftadaeth gyn-ddiwydiannol y Cymoedd yn bwysig ond yn cael ei hanwybyddu'n aml a dylem sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei chydabod a'i hyrwyddo'n iawn.

Arddangos y Celfyddydau a Diwylliant

Dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd ddarparu fframwaith ar gyfer defnyddio treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd i ddatblygu ac arddangos ei gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, creu proffil ledled Prydain ac yn rhyngwladol, megis parc tirwedd arloesol Emscher yn yr Almaen.

2. Hamdden a Llesiant



Ar bwys Cronfa Castell Nos, ger Maerdy



Mae'r Cymoedd yn mwynhau enw da cynyddol am weithgareddau awyr agored a thwristiaeth gweithgareddau, marchnad dwf allweddol yng Nghymru sy'n werth bron i £500 miliwn y flwyddyn. Dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd ddarparu cyfleoedd parhaus i wella'r economi ymwelwyr yn y Cymoedd i Croeso Cymru ac eraill, gan gynnwys y sector preifat.

Mae lefelau cynyddol o weithgarwch corfforol, yn enwedig ymysg y rhai lleiaf egnïol, yn flaenoriaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y gost o ran iechyd a lles yng Nghymru, drwy ei gyfraniad at faterion iechyd allweddol, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes Math 2, yn £650 miliwn y flwyddyn. Ar ben hynny, mae'n effeithio'n andwyol ar ansawdd bywyd unigolion a'u teuluoedd. Yn anffodus, mae nifer yr achosion o iechyd corfforol a meddyliol gwael yn ardaloedd y Cymoedd yn uwch nag yng Nghymru a llawer o'r DU.

Dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd ddarparu a gwella'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden egnïol a goddefol i:

- Wella iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl
- Gwella ecwiti a chydlyniant cymdeithasol pobl a chymunedau
- Cynyddu gwerthfawrogiad pobl o'r amgylchedd a'u gofal ohono
- Cynyddu manteision economaidd hamdden ac amwynder i Gymru

Canlyniadau

- Mae gan y Cymoedd enw da am hamdden awyr agored o ansawdd uchel gyda chymunedau a busnesau'n elwa ar economi ymwelwyr ffyniannus
- Mae pobl yn y Cymoedd yn mwynhau gwell iechyd a lles trwy well hamdden awyr agored a ffyrdd o fyw mwy egnïol

Gwneud i hyn ddigwydd

Datblygu a hyrwyddo gweithgareddau awyr agored a chyfleoedd twristiaeth cysylltiedig

Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella gweithgareddau awyr agored cynaliadwy yn y Cymoedd ar gyfer ymwelwyr a chymunedau fel ei gilydd ar y cyd â phob sector, gan gynnwys y sector preifat.

Cysylltu ein Hawyr Agored Wych

Mae'r Cymoedd yn gartref i nifer o lwybrau eiconig ar gyfer cerdded a beicio, megis Taith Taf, sy'n cysylltu Caerdydd â Bannau Brycheiniog, a'r Llwybr Celtaidd. Mae yna lwybrau cerdded gwych hefyd ar hyd sawl cefnfen hanesyddol uwchben y cymoedd, gan gynnwys Cefnffordd Cwm Rhymni a Ffordd Rufeinig Sarn Helen i enwi dim ond dau.

Byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gorau o'r rhain, gan eu cysylltu'n effeithiol â'r Canolfannau Darganfod a safleoedd ymwelwyr ac amwynderau eraill megis ein gwarchodfeydd natur. Mae'n bwysig hefyd ein bod am eu cysylltu'n effeithiol â'n trefi a'n pentrefi, felly eu bod nhw'n parhau i ddatblygu'r lletygarwch ac amwynderau eraill a fydd yn rhoi hwb economaidd.

Darganfod cyfleoedd newydd i gefnogi gwell llesiant

Dylai'r Cymoedd fod ar flaen y gad o ran gweithio gyda'u hasedau amgylcheddol i gefnogi gwell iechyd a lles. Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn codi proffil cyfleoedd trwy gynyddu gweithgarwch awyr agored ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a chymunedau.

Byddwn yn ceisio mynd ati i gefnogi cynlluniau peilot rhagnodi cymdeithasol gwyrdd sy'n annog pobl i fentro allan, a fydd yn cefnogi gwell llesiant. Mae hyn yn golygu gweithio'n well gyda'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gordewdra, a chynlluniau a mentrau eraill, i hyrwyddo mwy o ddefnydd o dirweddau'r Cymoedd i wella gweithgarwch corfforol awyr agored.

Bydd y Canolfannau Darganfod a gynigir a'r sector lletygarwch yn cael eu hannog i ddefnyddio bwyd a chynnyrch a gynhyrchir yn lleol, a fydd yn rhoi hwb economaidd hefyd.

3. Cymunedau a Mentergarwch



Pyllau a Choetir Bryn Cendl



Yn gynyddol, mae cymunedau yn y Cymoedd yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan eu tirweddau, megis enghreifftiau yng Nglyncorrwg, Parc Cefn Gwlad Cwm Clydach, a Llwybr Ebwy Fach. Yn Ynysybwl a'r Cwm Rhondda Fawr uchaf cwm Rhondda Fawr, mae mentrau newydd cyffrous a arweinir gan y gymuned yn cael eu datblygu i wneud y gorau o botensial economaidd eu hasedau amgylcheddol.

Gall rheoli tir mewn ffyrdd newydd a gwahanol gynnig manteision amgylcheddol, economaidd a llesiant amrywiol i gymunedau lleol, ac i Gymru, gan gynnwys lleihau'r perygl o lifogydd, gwell ansawdd aer, gwell iechyd a lles, a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau menter, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol a thlodi. Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ceisio cefnogi mwy o stiwardiaeth gymunedol.

Cafwyd datblygiadau pwysig yn y sector preifat yn y blynyddoedd diwethaf, gan greu cynnig Ymwelwyr mwy bywiog. Dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd ddarparu cefnlen proffil uchel i annog mwy o gyfleoedd ar gyfer y sector preifat. Rydym yn awyddus hefyd i ystyried sut y gall helpu i ddatblygu a chyflwyno syniadau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r economi sylfaenol.

Canlyniadau

- Mae cymunedau wedi'u grymuso'n rhan annatod o fath newydd o dirwedd ddynodedig gyffrous ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, gyda gwell stiwardiaeth o'u hasedau naturiol er mwyn darparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol
- Mae'r amgylchedd a'r dreftadaeth gysylltiedig yn gwneud cyfraniad allweddol at economi sylfaenol gref sy'n cefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol yn ein cymunedau

Gwneud i hyn ddigwydd

Cefnogi a hwyluso mentrau cymunedol

Mae grwpiau cymunedol ledled y Cymoedd a Chymru'n datblygu arbenigedd a sgiliau wrth weithredu eu prosiectau a'u mentrau. Serch hynny, gallant wynebu anawsterau wrth gyflawni eu prosiectau'n effeithiol am bob math o resymau, gan gynnwys problemau'n ymwneud â pherchnogaeth a phrydlesu tir a chyllid.

Mae sefydliadau cymunedol yn dysgu orau yn aml gan grwpiau tebyg y sydd wedi datblygu sgiliau a phrofiad i fynd i'r afael â'r heriau y maen nhw nawr yn eu hwynebu. Weithiau, maen nhw'n cael eu helpu i gyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau trwy hwyluso, megis drwy raglenni Adnewyddu Cymru a Creu Eich Lle, gan dynnu sylw at effeithiolrwydd gwahanol ddulliau.

O ganlyniad, byddwn yn ceisio sefydlu rhwydwaith cymheiriaid cymunedol, gan sicrhau bod cymunedau wrth wraidd datblygiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Bydd hyn yn helpu i feithrin gallu a hyder ymysg grwpiau a sefydliadau cymunedol ar draws y Cymoedd. Lle bo'n briodol ac yn bosib, byddwn yn ceisio galluogi uchelgeisiau cymunedol trwy gymorth logistaidd ac ariannol ar gyfer prosiectau strategol presennol a rhai sy'n datblygu.

Gwell stiwardiaeth gymunedol

Yn ôl tystiolaeth gynyddol, os oes gan gymunedau gryn dipyn o berchnogaeth a chyfranogiad, bydd yna fwy o fudd cyfunol o'r canlyniadau.

Mae Prosiect Skyline (sy'n cael ei redeg gan Y Cymoedd Gwyrdd) yn ceisio deall y cyfleoedd sy'n ymwneud â gwell stiwardiaeth gymunedol o asedau tirwedd gyda chynlluniau peilot mewn sawl lleoliad

yn y Cymoedd ar hyn o bryd. Byddwn yn darparu cefnogaeth logistaidd i sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu hystyried a'u defnyddio yn natblygiadau'r Parc Rhanbarthol yn y dyfodol.

Datblygu sgiliau i gyflawni newid

Rydym am greu cynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd, lle gall unigolion gael eu hyfforddi i gefnogi gweithgareddau presennol parcmyn a rhai sy'n datblygu ar draws y Cymoedd.

Yn ogystal, bydd partneriaid yn cael eu hannog i ystyried datblygu tasglu cyflawni yn y gymuned i gefnogi cyfleoedd hyfforddi, datblygu sgiliau a chyflogaeth.

Meithrin cyfranogiad priodol gan y sector busnes

Mae'r sector preifat wedi cyflawni rhai datblygiadau pwysig iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf i greu cynnig Ymwelwyr mwy bywiog yn seiliedig ar yr amgylchedd lleol yn y Cymoedd, e.e. Parc Beicio Cymru a Rock UK yn eu plith.

Rydym yn awyddus i Barc Rhanbarthol y Cymoedd gynnig cefnlen proffil uchel i annog mwy o gyfranogiad gan y sector preifat.

Datblygu cyfleoedd yn yr Economi Sylfaenol

Mae'r economi sylfaenol wedi'i hadeiladu o'r gweithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, megis cyfathrebu, gofal cymdeithasol, a chynhyrchu bwyd ac ynni.⁷

Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gan gynllun peilot Prosiect Skyline a chyfranogiad priodol y sector preifat, bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ystyried y rolau a'r cyfleoedd a gynigir gan yr amgylchedd lleol wrth ddatblygu'r Economi Sylfaenol yn ein cymunedau.

⁷ www.seneddresearch.blog/2017/03/02/the-foundational-economy/

‘Drive, cycle or walk to the top of the Rhigos, or the Bwlch, or Gelligaer Common or any of the hilltop spots to view the Valleys and the magnificence of south Wales is spread out before you.’⁸

⁸ Aled Blake – Golygyddol, 15 Ebrill, 2018, South Wales Echo



Cyd-Fynd â Pholisïau a Rhaglenni Presennol a Rhai Sydd Ar Droed

Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru

Mae themâu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol sydd yn y strategaeth hon. Mae'r ymrwymïadau allweddol sydd yn y strategaeth yn cael eu hadlewyrchu ar draws y themâu sy'n adlewyrchu'r tair blaenoriaeth sydd yng Nghynllun Cyflawni'r Tasglu '*Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*' hefyd, sef swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni, gwell gwasanaethau cyhoeddus a fy nghymuned.

Symud Cymru Ymlaen 2016 – 21

Symud Cymru Ymlaen yw rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut y bydd y llywodraeth yn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach, yn gwella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus, ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant yn llywio'r gwaith o gyflwyno Parc Rhanbarthol y Cymoedd ac yn darparu mecanwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau eu bod yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu manteision lleol yn deillio o reoli adnoddau naturiol y Cymoedd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r cysyniad a'r dulliau a amlinellir yn y cynnig yn adlewyrchu blaenoriaethau pum ffordd y Ddeddf o weithio.

Mae amlinelliad themâu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn adlewyrchu agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y themâu llesiant gyda gwelliannau i lesiant economaidd yn llifo drwy'r tair thema. Wrth ddatblygu'r cynigion, mae pob un o'r pum ffordd o weithio wedi cael eu hadlewyrchu gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu

â'r gymuned, er mwyn sbarduno datblygiad cynlluniau Parc Rhanbarthol y Cymoedd drwy ddulliau integredig a chydweithredol gan weithio gyda phartneriaid cyflenwi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.

Polisi Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru

Dylai Parc Rhanbarthol y Cymoedd fod yn batrwm o hyn a'r blaenoriaethau rhyng-gysylltiedig a gyflwynir ganddo. Bydd ein hagwedd yn un ranbarthol integredig a chydweithredol wrth ystyried 'lle', y defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys darparu cyfleoedd a seilwaith gwyrdd o safon uchel i gynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.

Deddf yr Amgylchedd

Mae gan y Datganiadau Ardal, a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, rôl allweddol wrth ddarparu'r dystiolaeth a sbarduno'r camau sydd eu hangen ymlaen i gyflawni gweledigaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae gan gymunedau rôl allweddol wrth nodi cyfleoedd o fewn cyd-destun datganiadau ardal a'r gwaith a wneir gan dîm tasglu'r Cymoedd. Bydd awdurdodau lleol, trwy gynllunio seilwaith gwyrdd cydlynol a gweithredu canllawiau diwygiedig Polisi Cynllunio Cymru, yn bartneriaid cyflawni allweddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn enghraifft o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, gydag ymagwedd ranbarthol integredig a chydweithredol. Bydd yn defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, gan gynnwys darparu seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel a chyfleoedd i gynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.

Deddf Cynllunio

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu gofyniad statudol i Weinidogion Cymru gynhyrchu a diweddarau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a fydd yn disodli Cynllun Gofodol cyfredol Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda'r Fframwaith i ddarparu manteision o gyd-destun gwell ar gyfer cynllunio defnydd tir.

Deddf Teithio Llesol (Cymru)

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth gyllid ychwanegol o £8.1m i gyflymu'r gwaith o gyflwyno casgliad o welliannau teithio sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cymru. Mae teithio llesol yn thema allweddol gyda'r nod o gydlynw a datblygu llwybrau beicio a cherdded o ansawdd uchel ar draws y Cymoedd ymhellach.

Cronfa Byw yn Iach ac Egnïol

Lansiwyd ym mis Gorffennaf 2018, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Gronfa Byw yn Iach ac Egnïol gyda'r nod o gryfhau asedau cymunedol sy'n galluogi pobl i fyw mewn ffordd iachach.

Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020

Mae'r rhaglen yn cefnogi strategaeth partneriaeth ar gyfer twf Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth 2013 – 20 trwy fynd ati'n weithredol i hyrwyddo a datblygu gweithgarwch twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru. Yr uchelgais a amlinellir yn y strategaeth yw cynyddu enillion twristiaeth yng Nghymru 10% neu fwy erbyn 2020.

Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r cynllun hwn, a gyhoeddwyd yn 2018, yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch. Yn ogystal â'r GIG a gofal cymdeithasol, mae hefyd yn ystyried yr holl elfennau eraill sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i iechyd pobl, fel cymorth i deuluoedd, addysg, tai, cyflogaeth a'r amgylchedd.

Cysylltwch â ni

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith y tasglu ar ein tudalen Facebook: www.facebook.com/talkvalleys/ neu ar Twitter gyda'r hashnod [#EinCymoedd](#).

Deallwn nad pawb sydd â mynediad at y cyfryngau cymdeithasol neu e-bost, felly byddwn yn gweithio â lleoliadau cymunedol i hysbysebu digwyddiadau gyda phosteri a thrwy ledur gair.

Byddwn hefyd yn defnyddio partneriaethau gydag Awdurdod Lleol, sefydliadau trydydd sector a grwpiau busnes gan ofyn iddynt rannu gwybodaeth gyda'u rhwydweithiau am ddigwyddiadau a chyfleoedd i ymwneud â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

Os hoffech gymryd rhan neu ddysgu mwy am Barc Rhanbarthol y Cymoedd cysylltwch â ni: EinCymoedd@llyw.cymru

Drwy'r post:

Tasglu'r Cymoedd
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: EinCymoedd@llyw.cymru